O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 664 (Cy. 168)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M4 a'r darnau o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mehefin 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru ac "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darnau o ffyrdd ymadael neilltuedig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 32 (Coryton) sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

Y darn o gefnffordd yr A470, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Ffordd gyswllt neilltuedig yr A470 o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton i'w chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A470.